OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2000 Rhif 2993 (Cy. 193 )

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth Cyrff Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac Awdurdodau Lleol (Cymru) 2000

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *7 Tachwedd 2000* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Rhagfyr 2000* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 126(4) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977(**1**) ac adran 31 o Ddeddf Iechyd 1999(**2**) a phob pŵ er arall sy'n galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol yn y cyswllt hwnnw, ac sydd bellach wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**3**):—

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth Cyrff Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac Awdurdodau Lleol (Cymru) 2000 a deuant i rym ar 1 Rhagfyr 2000.

(2) Bydd y Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

### Dehongli

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn —

ystyr "awdurdod lleol" ("*local authority*") yw corff y mae rheoliad 3(2) yn gymwys iddo;

ystyr "contract Gwasanaeth Iechyd Gwladol" yw'r ystyr a roddir i "NHS contract" yn adran 4(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990(**4**);

ystyr "corff Gwasanaeth Iechyd Gwladol" ("*National Health Service body*") yw corff y mae rheoliad 3(1) yn gymwys iddo;

(**1**) 1977 p. 49; mae adran 126(4) yn gymwys yn rhinwedd adran 62(4) o Ddeddf Iechyd 1999 ac fe'i diwygiwyd gan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990 (p.19), adran 65(2) a Deddf Iechyd 1999, Atodlen 4, paragraff 37(5).
(**2**) 1999 p. 8; gweler adran 31(8) ar gyfer y diffiniad o "prescribed".
(**3**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau eu bod yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2(a) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, OS 1999/672, fel y'i diwygiwyd gan adran 66(4) a (5) o Ddeddf 1999.
(**4**) 1990 p.19.

ystyr "cynllun gwella iechyd" ("*health improvement plan*") yw cynllun y mae'n ofynnol i Awdurdod Iechyd ei baratoi o dan adran 28 o'r Ddeddf;

ystyr "Deddf 1977" ("*the 1977 Act*") yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Iechyd 1999;

ystyr "partneriaid" ("*partners*"), mewn perthynas â threfniadau partneriaeth, yw un neu fwy o gyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac un neu fwy o awdurdodau lleol;

ystyr "swyddogaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol" ("*National Health Service functions*") yw swyddogaethau cyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a ragnodir o dan reoliad 5;

ystyr "swyddogaethau sy'n gysylltiedig ag iechyd" ("*health related functions*") yw swyddogaethau'r awdurdodau lleol a ragnodir o dan reoliad 6; ac

ystyr "trefniadau partneriaeth" ("*partnership arrangements*") yw'r trefniadau a ragnodir o dan reoliadau 7, 8 a 9.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall, mae unrhyw gyfeiriad at reoliad â rhif yn gyfeiriad at y rheoliad sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Rheoliadau hyn, ac mae unrhyw gyfeiriad at baragraff â rhif yn gyfeiriad at y paragraff sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y rheoliad hwnnw.

### Cyrff Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac awdurdodau lleol rhagnodedig

**3.**—(1) Y cyrff yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a ragnodir at ddibenion adran 31 o'r Ddeddf yw —

(a) Awdurdod Iechyd(**5**); a

(b) Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol(**6**);

(2) Yr awdurdodau lleol a ragnodir at ddibenion adran 31 o'r Ddeddf yw —

(a) cyngor sir; a

(b) cyngor bwrdeistref sirol.

### Trefniadau partneriaeth rhwng cyrff Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac awdurdodau lleol

**4.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) a (3), caiff y partneriaid wneud unrhyw drefniadau partneriaeth mewn perthynas ag arfer —

(a) unrhyw un o swyddogaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol, a

(b) unrhyw swyddogaethau sy'n gysylltiedig ag iechyd,

os yw'r trefniadau partneriaeth yn debyg o arwain at wella'r ffordd y caiff y swyddogaethau hynny eu harfer.

(2) Ni chaiff y partneriaid wneud unrhyw drefniadau partneriaeth oni bai eu bod wedi ymgynghori ar y cyd â'r personau hynny y mae'n ymddangos iddynt y bydd y trefniadau hynny yn effeithio arnynt.

(3) Ni chaiff y partneriaid wneud unrhyw drefniadau partneriaeth nad ydynt yn cyflawni'r amcanion a nodir yng nghynllun gwella iechyd yr Awdurdod Iechyd y bwriedir i'r trefniadau i weithredu yn ei ardal.

### Swyddogaethau cyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol

**5.** Dyma swyddogaethau cyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol —

(**5**) Gweler adran 8 o Ddeddf y Gwasnaeth Iechyd Gwladol 1977 fel y'i diwygiwyd gan adran 1(1) o Ddeddf Awdurdodau Iechyd 1995 (p.17) a pharagraff 5 o Atodlen 4 i Ddeddf Iechyd 1999.

(**6**) Gweler adran 5 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990 fel y'i diwygiwyd gan baragraff 69 o Atodlen 1 i Ddeddf Awdurdodau Iechyd 1995 ac adran 13(1) o Ddeddf Iechyd 1999.

(a) swyddogaeth darparu, neu drefnu darparu, gwasanaethau —

(i) o dan adrannau 2 a 3(1) o Ddeddf 1977, gan gynnwys gwasanaethau adsefydlu a gwasanaethau y bwriedir iddynt osgoi derbyn cleifion i'r ysbyty ond heb gynnwys llawfeddygaeth, radiotherapi, terfynu beichiogrwydd, endosgopi, defnyddio triniaethau laser Dosbarth 4(**7**) a thriniaethau trychiadol eraill a gwasanaethau ambiwlansys brys; a

(ii) o dan adran 5(1), (1A) ac 1(B) o Ddeddf 1977(**8**), ac Atodlen 1 iddi; a

(b) y swyddogaethau o dan adrannau 25A i 25H a 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983(**9**).

**Swyddogaethau'r awdurdodau lleol sy'n gysylltiedig ag iechyd**

**6.** Dyma'r swyddogaethau sy'n gysylltiedig ag iechyd —

(a) y swyddogaethau a bennir yn Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdodau Lleol 1970(**10**) ac eithrio swyddogaethau o dan —

(i) adrannau 22, 23(3), 26(2) i (4), 43, 45 a 49 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948(**11**);

(ii) adrannau 6 a 7B o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdodau Lleol 1970;

(iii) adrannau 1 a 2 o Ddeddf Mabwysiadu 1976(**12**);

(iv) adrannau 114 a 115 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983;

(v) Deddf Cartrefi Cofrestredig 1984(**13**)); a

(vi) Rhannau VII i X ac adran 86 o Ddeddf Plant 1989(**14**);

(b) y swyddogaethau o dan adrannau 5, 7 neu 8 o Ddeddf Personau Anabl (Gwasanaethau, Ymgynghori a Chynrychioli) 1986(**15**)) ac eithrio i'r graddau y maent yn dyrannu swyddogaethau i awdurdod lleol yn rhinwedd eu swydd fel awdurdod addysg lleol;

(c) swyddogaethau darparu, neu sicrhau darparu, cyfleusterau hamdden o dan adran 19 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 (**16**);

(**7**) Gweler BS EN 60825-1: Safety Laser Products. Diffinnir cynhyrchion laser dosbarth 4 drwy gyfeirio at 'British Standards' sy'n cael ei gyhoeddi gan y Sefydliad Safonau Prydeinig ("BSI") a gellir ei gael oddi wrth BSI, Linford Woods, Milton Keynes, MK14 6LT.

(**8**) Diwygiwyd adran 5(1) gan Ddeddf Iechyd a Meddyginiaethau 1988 (p.49), adran 10(1), a mewnosodwyd adran 5(1A) ac (1B) ganddi; diwygiwyd Atodlen 1 gan Ddeddf Addysg 1981 (p.60), Atodlen 3, paragraff 13; Deddf Diwygio Addysg 1988 (p.40) Atodlen 12, Rhan 1, paragraff 21, a Deddf Iechyd a Meddyginiaethau 1988, Atodlen 2, paragraff 7.

(**9**) 1983 p.20.

(**10**) 1970 (p.42); diwygiwyd Atodlen 1 (drwy ddiddymu, amnewid neu fewnosod eitemau) gan y canlynol: adran 78 o Ddeddf Elusennau 1992 (p.42) ac Atodlen 7 iddi; adran 78 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p.22) ac Atodlenni 2 a 3 iddi; Deddf Cyfraith Statud (Diddymiadau) 1978 (p.45); Deddf Cyfraith Statud (Diddymiadau) 1993 (p.50); adran 73(3) o Ddeddf Mabwysiadu 1976 (p.36) ac Atodlen 4 iddi; adran 57 o Ddeddf Ad-drefnu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1973 (p.32) ac Atodlen 5 iddi; adran 148 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (p.20) ac Atodlen 4 iddi; adran 108(5) o Ddeddf Plant 1989 (p.41) ac Atodlenni 13 a 15 iddi; adran 89(2) o Ddeddf Achosion Domestig a Llysoedd Ynadon 1978 (p.22) ac Atodlenni 2 a 3 iddi; adran 54 o Ddeddf Achosion Priodasol 1973 (p.18) ac Atodlenni 2 a 3 iddi; adran 35(2) a (3) o Ddeddf Budd-daliadau Atodol 1976 (p.71) ac Atodlenni 7 ac 8 iddi; adran 129 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 (p.49) ac Atodlen 16 iddi; adran 66(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990 (p.19) ac Atodlen 9 iddi; adran 20(1) o Ddeddf Nawdd Cymdeithasol 1980 (p.30) ac Atodlen 4 iddi; adrannau 3 a 4 o Ddeddf Tai (Darpariaethau Canlyniadol) 1985 (p.71) ac Atodlenni 1 a 2 iddi; adran 57 o Ddeddf Cartrefi Cofrestredig 1984 (p. 23) ac Atodlen 1 iddi; adran 216(3) o Ddeddf Tai 1996 (p. 52) ac Atodlen 17 iddi; adran 582(1) a (2) o Ddeddf Addysg 1996 (p.56) ac Atodlenni 37 a 38 iddi; adran 1(7) o Ddeddf Gofalwyr (Cydnabyddiaeth a Gwasanaethau) 1995 (p.12); adran 3(1) a (3) o Ddeddf Gofal Cymunedol (Taliadau Uniongyrchol) 1996 (p.30); ac adran 15 (1) o Ddeddf Mabwysiadu (Agweddau Rhyngwladol) 1999 (p.18) ac Atodlen 2 iddi.

(**11**) 1948 p.29.

(**12**) 1976 p.36.

(**13**) 1984 p.23.

(**14**) 1989 p.41.

(**15**) 1986 p.33; gweler Gorchymyn Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdodau Lleol (Dynodi Swyddogaethau) 1989 (OS 1989/222).

(**16**) 1976 p.57.

(ch) swyddogaethau awdurdodau addysg lleol o dan y Deddfau Addysg fel y'u diffinnir yn adran 578 o Ddeddf Addysg 1996(**17**);

(d) swyddogaethau awdurdodau tai lleol o dan Ran I o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adnewyddu 1996(**18**); ac o dan Rannau VI a VII o Ddeddf Tai 1996(**19**);

(dd) swyddogaethau awdurdodau lleol o dan adran 126 o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adnewyddu 1996;

(e) swyddogaethau casglu gwastraff neu waredu gwastraff o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990(**20**);

(f) swyddogaethau darparu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd o dan adrannau 180 a 181 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**21**));

(ff) swyddogaethau awdurdodau priffyrdd lleol o dan Ddeddf Priffyrdd 1980(**22**) ac adran 39 o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988(**23**)); ac

(g) y swyddogaethau o dan adran 63 (cludiant i deithwyr) ac adran 93 (cynlluniau gostyngiadau tocynnau teithio) o Ddeddf Trafnidiaeth 1985(**24**).

**Trefniadau cyd-gronfa**

**7.**—(1) Yn ddarostyngedig i'r darpariaethau canlynol yn y rheoliad hwn, caiff y partneriaid wneud trefniadau ar gyfer sefydlu a chynnal cronfa neu mewn cysylltiad â sefydlu a chynnal cronfa ("trefniadau cyd-gronfa") a gaiff eu ffurfio o gyfraniadau gan y partneriaid ac y gellir gwneud taliadau ohoni tuag at wariant a dynnir wrth arfer unrhyw rai o swyddogaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol neu swyddogaethau sy'n gysylltiedig ag iechyd.

(2) Ni chaiff partner sy'n ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol wneud trefniadau cyd-gronfa gyda phartner sy'n awdurdod lleol oni fydd yn sicrhau cydsyniad pob Awdurdod Iechyd y mae ganddo gontract Gwasanaeth Iechyd Gwladol gydag ef ynghylch darparu gwasanaethau ar gyfer personau y gall y swyddogaethau sy'n destun y gyd-gronfa gael eu harfer mewn perthynas â hwy.

(3) Pan yw'r partneriaid wedi penderfynu gwneud trefniadau cyd-gronfa, rhaid i'r trefniadau gael eu gwneud mewn ysgrifen a rhaid iddynt bennu —

(a) y nodau a'r canlyniadau y cytunwyd arnynt ar gyfer y trefniadau cyd-gronfa;

(b) y cyfraniadau sydd i'w gwneud gan bob un o'r partneriaid i'r gyd-gronfa a sut y gall y cyfraniadau hyn gael eu hamrywio;

(c) y swyddogaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol a'r swyddogaethau sy'n gysylltiedig ag iechyd sy'n destun y trefniadau;

(ch) y personau a'r math o wasanaethau y gellir arfer y swyddogaethau y cyfeirir atynt yn is-baragraff (c) mewn perthynas â hwy;

(d) y staff, y nwyddau, y gwasanaethau neu'r llety sydd i'w darparu gan y partneriaid mewn cysylltiad â'r trefniadau;

(dd) am faint y bydd y trefniadau yn parhau, a'r ddarpariaeth ar gyfer adolygu'r trefniadau, eu hamrywio neu eu terfynu; ac

(e) sut mae'r gyd-gronfa i gael ei rheoli a'i monitro, gan gynnwys pa bartner fydd y partner lletyol yn unol â pharagraff (4).

(**17**) 1996 p.56.
(**18**) 1996 p.53.
(**19**) 1996 p.52.
(**20**) 1990 p.43.
(**21**) 1972 p.70.
(**22**) 1980 p.66.
(**23**) 1988 p.52.
(**24**) 1985 p.67.

(4) Rhaid i'r partneriaid gytuno y bydd un ohonynt ("y partner lletyol") yn gyfrifol am y cyfrifon ac am yr archwilio ar gyfer trefniadau'r gyd-gronfa a rhaid i'r partner lletyol benodi un o'i swyddogion ("rheolydd y gyd-gronfa") i fod yn gyfrifol am y canlynol —

(a) rheoli'r gyd-gronfa ar eu rhan, a

(b) cyflwyno adroddiadau chwarterol i'r partneriaid, ynghyd ag adroddiad blynyddol, ynghylch incwm a gwariant y gyd-gronfa a gwybodaeth arall y gall y partneriaid ei defnyddio i fonitro effeithiolrwydd trefniadau'r gyd-gronfa.

(5) Caiff y partneriaid gytuno y caiff un o swyddogion y naill bartner neu'r llall arfer y swyddogaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol a'r swyddogaethau sy'n gysylltiedig ag iechyd sy'n destun trefniadau'r gyd-gronfa.

(6) Rhaid i'r partner lletyol drefnu archwilio cyfrifon trefniadau'r gyd-gronfa a'i gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn Archwilio wneud trefniadau ar gyfer ardystio adroddiad blynyddol ar y cyfrifon hynny o dan adran 28(1)(d) o Ddeddf y Comisiwn Archwilio 1998(**25**).

### Arfer swyddogaethau gan gorff Gwasanaeth Iechyd Gwladol

**8.**—(1) Yn ddarostyngedig i'r darpariaethau canlynol yn y rheoliad hwn, caiff y partneriaid wneud trefniadau i gyrff Gwasanaeth Iechyd Gwladol arfer swyddogaethau sy'n gysylltiedig ag iechyd wrth i'r cyrff hynny arfer eu swyddogaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol hefyd.

(2) Pan yw'r partneriaid wedi penderfynu gwneud trefniadau o dan baragraff (1), rhaid i'r cytundeb gael ei wneud mewn ysgrifen a rhaid iddo bennu —

(a) y nodau a'r canlyniadau y cytunwyd arnynt ar gyfer y trefniadau;

(b) y taliadau sydd i'w gwneud gan yr awdurdodau lleol i'r cyrff Gwasanaeth Iechyd Gwladol a sut y gall y taliadau hyn gael eu hamrywio;

(c) y swyddogaethau sy'n gysylltiedig ag iechyd a swyddogaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol y mae eu cyflawni yn destun y trefniadau;

(ch) y personau a'r math o wasanaethau y gellir arfer y swyddogaethau y cyfeirir atynt yn is-baragraff (c) mewn perthynas â hwy;

(d) y staff, y nwyddau, y gwasanaethau neu'r llety sydd i'w darparu gan y partneriaid mewn cysylltiad â'r trefniadau;

(dd) am faint y bydd y trefniadau yn parhau, a'r ddarpariaeth ar gyfer adolygu'r trefniadau, eu hamrywio neu eu terfynu; ac

(e) y trefniadau sydd ar gael i fonitro sut mae'r cyrff Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn arfer y swyddogaethau y cyfeirir atynt yn is-baragraff (c).

(3) Rhaid i'r cyrff Gwasanaeth Iechyd Gwladol gyflwyno adroddiadau i'r awdurdodau lleol, bob chwarter a phob blwyddyn, ynghylch arfer y swyddogaethau sy'n gysylltiedig ag iechyd sy'n destun y trefniadau.

### Arfer swyddogaethau gan awdurdodau lleol

**9.**—(1) Yn ddarostyngedig i'r darpariaethau canlynol yn y rheoliad hwn, caiff y partneriaid wneud trefniadau i awdurdodau lleol arfer swyddogaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol wrth i'r awdurdodau hynny arfer eu swyddogaethau sy'n gysylltiedig ag iechyd hefyd.

(2) Ni chaiff partner sy'n ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol wneud trefniadau o dan baragraff (1) oni fydd yn sicrhau cydsyniad pob Awdurdod Iechyd y mae gan yr ymddiriedolaeth gontract Gwasanaeth Iechyd Gwladol gydag ef ynghylch darparu gwasanaethau ar gyfer personau y gall y swyddogaethau sy'n destun y trefniadau gael eu harfer mewn perthynas â hwy.

(**25**) 1998 p.18.

(3) Pan yw'r partneriaid wedi penderfynu gwneud trefniadau o dan baragraff (1), rhaid i'r cytundeb gael ei wneud mewn ysgrifen a rhaid iddo bennu —

(a) y nodau a'r canlyniadau y cytunwyd arnynt ar gyfer y trefniadau;

(b) y taliadau sydd i'w gwneud gan y cyrff Gwasanaeth Iechyd Gwladol i'r awdurdodau lleol a sut y gall y taliadau hyn gael eu hamrywio;

(c) y swyddogaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol y mae eu harfer yn destun y trefniadau;

(ch) y personau a'r math o wasanaethau y gellir arfer y swyddogaethau y cyfeirir atynt yn is-baragraff (c) mewn perthynas â hwy;

(d) y staff, y nwyddau, y gwasanaethau neu'r llety sydd i'w darparu gan y partneriaid mewn cysylltiad â'r trefniadau;

(dd) am faint y bydd y trefniadau yn parhau, a'r ddarpariaeth ar gyfer adolygu'r trefniadau, eu hamrywio neu eu terfynu; ac

(e) y trefniadau sydd ar gael i fonitro sut mae'r awdurdodau lleol yn arfer y swyddogaethau y cyfeirir atynt yn is-baragraff (c).

(4) Rhaid i'r awdurdodau lleol gyflwyno adroddiadau i'r cyrff Gwasanaeth Iechyd Gwladol, bob chwarter a phob blwyddyn, ynghylch arfer y swyddogaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol sy'n destun y trefniadau.

**Atodol**

**10.**—(1) Mewn cysylltiad ag unrhyw drefniadau partneriaeth, caiff partner benderfynu darparu staff, nwyddau, gwasanaethau neu lety ar gyfer partner arall.

(2) Caiff y partneriaid ffurfio cyd-bwyllgor i gymryd y cyfrifoldeb dros reoli'r trefniadau partneriaeth gan gynnwys monitro'r trefniadau a derbyn adroddiadau a gwybodaeth am sut mae'r trefniadau'n cael eu gweithredu.

(3) Heb ragfarnu unrhyw weithdrefnau cwyno o dan Ddeddf Gweithdrefnau Cwyno Ysbytai 1985(**26**) neu o dan adran 7B o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdodau Lleol 1970 neu fel arall, pan yw'r partneriaid wedi ffurfio cyd-bwyllgor o dan baragraff (2) mewn perthynas â threfniadau partneriaeth, cânt gytuno bod is-bwyllgor, neu aelod o is-bwyllgor, yn cael ystyried cwynion am y trefniadau partneriaeth os caiff y cwynion eu gwneud gan ddefnyddwyr y gwasanaethau a ddarperir o dan y trefniadau partneriaeth neu ar ran y defnyddwyr hynny.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**27**).

*D Elis Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

7 Tachwedd 2000

(**26**) 1985 p.42.
(**27**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu i gyrff penodol yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac awdurdodau lleol penodol wneud trefniadau ("trefniadau partneriaeth") ynghylch arfer swyddogaethau penodedig.

Mae Rheoliad 3 yn rhagnodi'r cyrff yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a'r awdurdodau lleol ("y partneriaid") sy'n cael gwneud y trefniadau.

Mae Rheoliad 4 yn nodi'r amodau y mae'n rhaid eu bodloni cyn bod y partneriaid yn cael gwneud y trefniadau partneriaeth. Yn Rheoliadau 5 a 6 rhagnodir pa rai o swyddogaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac o swyddogaethau'r awdurdod lleol sy'n gysylltiedig ag iechyd a all fod yn destun trefniadau partneriaeth.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn diffinio natur y trefniadau partneriaeth. Maent yn darparu ar gyfer sefydlu cronfa a gaiff eu ffurfio o gyfraniadau gan y partneriaid. Gellir gwneud taliadau o'r gronfa tuag at wariant a dynnir wrth i'r partneriaid arfer eu swyddoaethau'r; er mwyn i gyrff yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol arfer swyddogaethau'r awdurdodau lleol ac i'r awdurdodau lleol arfer swyddogaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Maent yn ei gwneud yn ofynnol hefyd i'r partneriaid nodi telerau'r trefniadau mewn ysgrifen (rheoliadau 7, 8 a 9).

Mae Rheoliad 10 yn gwneud darpariaethau atodol.